# Canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

E-bost/rhif ffôn: 01970 639950

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd yr ymatebion erbyn 31 Gorffennaf 2025 i:

Lles a Diogelu mewn Ysgolion
Is-adran Tegwch mewn Addysg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: YmgynghoriadCydraddoldebParchuHawliau@llyw.cymru

**Cwestiwn 1 –** A yw'r canllawiau gwrthfwlio drafft Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol ac ymarferol sy'n addas i arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol, er mwyn llywio dulliau i atal pob math o fwlio ac i ymateb iddynt?

| Ydynt | x | Nac ydynt | | Ddim yn siŵr | |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Mae'r canllawiau yn cynnwys llawer o wybodaeth ac yn nodi materion yn drylwyr. Mae'r nod o 'greu cymuned barchus lle mae ein haelodau yn dysgu byw ochr yn ochr â'i gilydd heb ymddygiad ymosodol' a'r datganiad 'Rydym am anfon y neges fod bwlio yn annerbyniol ac na fydd yn cael ei oddef' yn negeseuon pwysig. Mae llawer o'r wybodaeth yn 'ddefnyddiol ac ymarferol' ac yn 'addas', ond mae angen rhoi mwy o bwyslais ar 'barch' pobl at ei gilydd a chyfleu'r neges y gallwn ymdrin yn barchus â'n gilydd hyd yn oed os nad ydym yn rhannu'r un daliadau. O fewn unrhyw gymuned fe fydd gwahaniaethau barn, y gamp yw parchu'r gwahaniaethu hynny, heb gyfaddawdu daliadau personol.**

**Cwestiwn 2 –** A yw'r canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb yn amlinellu cyfrifoldeb cyfreithiol yr ysgol a'r llywodraethwyr yn glir?

| Ydynt | x | Nac ydynt | | ☐ | Ddim yn siŵr | |
|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Ceir cyfeiriad at y rhestr o ddeddfau perthnasol. Gan mai 'amlinellu' yw'r gair a ddefnyddir yn y cwestiwn, rhoddwyd ateb cadarnhaol. O ystyried natur y ddogfen, nid oes angen mwy o fanylion.**

**Cwestiwn 3 –** A yw'r canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb yn amlinellu cyfrifoldebau'r awdurdod lleol yn glir?

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | x |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Mae cyfeiriad at rôl yr awdurdod lleol yn y ddogfen, ond byddai'n haws pe bai adran yn y ddogfen o dan y teitl 'Rôl yr awdurdod lleol'.**

**Cwestiwn 4 –** A yw'r canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb yn cysylltu'n iawn â meysydd polisi ehangach ac â chanllawiau ar bynciau ar wahân sy'n gysylltiedig?

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | x |
|---|---|---|---|---|---|

Os nad ydynt, a oes cysylltiadau â meysydd perthnasol nad ydynt yn cael eu gwneud yn y canllawiau ac y dylid eu gwneud?

| |
|---|
| **Ymddengys eu bod, ond hyd nes y'u rhoddir ar waith mae'n anodd bod yn hollol siŵr.** |

**Cwestiwn 5** - A yw dysgwyr â nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys?

| Ydynt | x | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6 –** A yw'r canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb yn cael eu hesbonio'n glir?

| Ydynt | | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | x |
|---|---|---|---|---|---|

Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?

| |
|---|
| **Er bod yr ateb i'r cwestiwn blaenorol yn gadarnhaol, hoffem nodi'r canlynol. Mae tuedd i'r canllawiau fod yn eiriog iawn. Byddai'n well pe bai'r prif bwyntiau wedi eu nodi ar ffurf pwyntiau bwled.** |

**Cwestiwn 7 –** A yw'r canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb yn hawdd eu defnyddio?

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | x |
|---|---|---|---|---|---|

Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, os felly, pam?

| |
|---|
| **Mae'n anodd iawn dod i benderfyniad ynglŷn â hyn. Wrth ddefnyddio canllawiau y gwelir pa mor hawdd/anodd ydynt i'w dilyn.** |

**Cwestiwn 8 –** A ddylai meysydd eraill gael eu cynnwys yn y canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb nad ydych wedi cael cyfle i wneud sylwadau arnynt uchod? Os 'dylai' yw'r ateb, rhowch fanylion.

| Dylai | | Na ddylai | | Ddim yn siŵr | x |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Mae'n anorfod y bydd pobl â daliadau gwahanol ac ymddengys yn annheg nodi na ddylid hyd yn oed 'awgrymu' bod rhai materion 'yn annerbyniol'. Onid oes hawl gan bobl i goleddu safbwyntiau gwahanol, cyn belled â'u bod yn trin pob un â pharch ac urddas?** |

**Cwestiwn 9 –** Pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb?

| Eithriadol o ddefnyddiol | ☐ | Defnyddiol iawn | ☐ | Eithaf defnyddiol | x | Ychydig bach yn ddefnyddiol | ☐ | Ddim yn ddefnyddiol o gwbl | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Os 'Eithaf defnyddiol', 'Ychydig bach yn ddefnyddiol', neu 'Ddim yn ddefnyddiol o gwbl' yw'r ateb, pa welliannau hoffech chi eu gweld?

| |
|---|
| **Mae agweddau o'r canllawiau yn ddefnyddiol, ond mae yna ormod o fanylion ar adegau sy'n ei gwneud hi'n anodd darllen y canllawiau.** |

**Cwestiwn 10 –** A yw'r gyfres bresennol o hyfforddiant ar Hwb yn cefnogi'r defnydd o'r canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb?

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | x |
|---|---|---|---|---|---|

Os nad ydynt, pa hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 11 –** Pa mor effeithiol yw'r canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb yn eich cefnogi i adrodd a chofnodi digwyddiadau o fwlio?

| Eithriadol o ddefnyddiol | ☐ | Defnyddiol iawn | ☐ | Eithaf defnyddiol | ☐ | Ychydig bach yn ddefnyddiol | ☐ | Ddim yn ddefnyddiol o gwbl | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Mae'r wybodaeth berthnasol wedi ei chynnwys yn y ddogfen, ond gellid fod wedi ei chyflwyno mewn ffordd fwy effeithiol. Byddai gosod gwybodaeth ar ffurf pwyntiau bwled a nodi'r broses gam wrth gam yn ei gwneud hi'n haws i ddilyn yr hyn y mae angen ei wneud.** |

**Cwestiwn 12** – I ba raddau yr ydych yn cytuno y dylid diwygio Rheoliadau Addysg (Adeiladau Ysgolion) 1999 i wneud yn glir y gall ysgolion ddarparu toiledau niwtral o ran rhywedd yn ogystal â thoiledau sydd wedi'u gwahanu ar sail rhyw?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau**

| |
|---|
| **Mae'r rheoliadau dan sylw yn adlewyrchu'r cyfnod fe'i cyhoeddwyd, ac efallai bod angen edrych arnynt yn eu cyfanrwydd os am ddiwygio, er nad ydym, o reidrwydd yn annog hynny.** |

**Yn sicr, mae'r defnydd o'r term 'sex' yn hytrach na 'gender' yn anffodus o ran ein cyd-destun, ac os oes dymuniad i newid y rheoliadau mae angen defnyddio'r term gender yn hytrach na 'sex' ac yn lle'r cyfeiriadau at 'male' a 'female'.**

**Byddai cwestiwn 12 ddim yn codi wedyn. Fodd bynnag, mae'n anodd gweld pa mor addas fyddai i Lywodraeth Cymru ail edrych ar yr holl reoliadau a gyhoeddwyd cyn i ddatganoli ddigwydd, yn enwedig o ran capasiti presennol y Llywodraeth.**

**Mae'n bwysig hefyd nad oes sefyllfaoedd yn codi a fydd yn rhoi pwysau ar arweinwyr ysgolion ac athrawon yn ein hysgolion ac ni ddylid ychwanegu at eu llwyth gwaith yn ddiangen.**

**Cwestiwn 13 –** Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y newidiadau i'r canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

**Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau amlwg ar y Gymraeg.**

**Cwestiwn 14 –** Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb er mwyn:

- sicrhau eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 15 –** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma.

**Sylwadau ategol**

**Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at rolau y dylid eu cael mewn ysgolion – 1. Hyrwyddwr Tegwch ac Amrywiaeth a 2. Arweinydd Gwrthfwlio. A roddwyd ystyriaeth i gostau hyn i ysgolion? A roddwyd ystyriaeth i lwyth gwaith athrawon wrth bennu'r rolau hyn?**

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐